# Rhyddfreinwyr ar y Tir a herio cyfreithlondeb Treth y Cyngor

## Treth y Cyngor, Rhyddfreinwyr ar y Tir a grwpiau tebyg

Mae llawer o erthyglau camarweiniol ar y rhyngrwyd ynglŷn â chyfreithlondeb Treth y Cyngor. Yn achlysurol iawn, bydd Rhyddfreinwyr ar y Tir a grwpiau tebyg yn credu bod defnyddio deddf hynafol yn golygu nad oes rhaid iddyn nhw dalu Treth y Cyngor. Mae hyn yn anghywir.

Mae mudiad Rhyddfreinwyr ar y Tir a grwpiau tebyg, yn gyffredin yn credu eu bod yn rhwymedig i gontractau a chyfreithiau y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer yn unig. Ni ddylen nhw ddrysu rhwng cyfraith contract a hawliau honedig dan gyfraith gyffredin, a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gweinyddu a chasglu Treth y Cyngor.

Nid yw disgrifio eich hun fel 'Rhyddfreiniwr ar y Tir' yn eithrio unrhyw berson rhag talu Treth y Cyngor. Nid oes gyda chi ddewis i dalu Treth y Cyngor ac nid yw'n rhywbeth i chi gydsynio iddo. Os ydych chi'n atebol i dalu Treth y Cyngor, rhaid i chi wneud eich taliadau.

Rydyn ni'n gwneud ein gorau glas i geisio ateb yr holl ymholiadau perthnasol am Dreth y Cyngor. Rydyn ni'n cadw'r hawl i wrthod ymateb i ymholiadau annilys sy'n aml yn hir ac sy'n canolbwyntio ar ddadleuon damcaniaethol nad oes iddyn nhw unrhyw sail gyfreithiol sy'n defnyddio ein hadnoddau ar draul y trethdalwr. Mae hyn yn cynnwys llythyrau a hysbysiadau a gafodd eu cyflwyno i brif weithredwr y Cyngor gyda'r un rhesymu camarweiniol.

## Rhwymedigaeth Treth y Cyngor

Deddf Cyllid Llywodraeth Lleol 1992 a'r rheoliadau diweddarach sy'n pennu pwy sy'n atebol am dalu Treth y Cyngor. Lluniwyd y statud yma gan Senedd y Deyrnas Unedig a etholwyd yn ddemocrataidd, sydd wedi derbyn cydsyniad y Goron.

Nid yw eich atebolrwydd i dalu Treth y Cyngor yn dibynnu ar gydsyniad, ac nid oes angen cydsyniad, neu fodolaeth perthynas gontractiol â'r Cyngor. Mae unrhyw honiad o'r fath i'r gwrthwyneb yn anghywir ac nid oes unrhyw sail gyfreithiol i wneud y ddadl yma.

Pennir atebolrwydd am Dreth y Cyngor yn unol â'r rheoliadau statudol a chadarnheir atebolrwydd am hyn gan hysbysiad galw Treth y Cyngor a gyhoeddir ar gyfer pob blwyddyn.

Mae dadleuon Rhyddfreinwyr ar y Tir wedi cael eu hystyried a'u dyfarnu yn eu herbyn gan y llysoedd a bydd unrhyw un sy'n atal taliad yn cael camau adennill yn eu herbyn.

Os oes gyda chi unrhyw bryderon ynghylch codi Treth y Cyngor, gofynnwch am gyngor cyfreithiol cywir. Peidiwch â dibynnu ar ffynonellau ar y rhyngrwyd neu ddatganiadau fforwm a allai fod yn anghywir neu'n gamarweiniol.

## Deddfwriaeth Treth y Cyngor

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Threth y Cyngor ar gael am ddim ar wefannau Deddfwriaeth y Llywodraeth gan gynnwys;

- Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993

Mae rhai trigolion wedi cwestiynu a oes rheidrwydd arnyn nhw i gadw at weithredoedd a statudau, ac wedi gofyn beth yw'r gwahaniaeth rhwng statud a chyfraith, a chwestiynau tebyg eraill ynglŷn â materion cyfreithiol.

Yn y bôn, statudau sy'n pennu'r gyfraith yw deddfau Seneddol; fodd bynnag, os oes gyda chi gwestiynau ynghylch deddfau Seneddol neu gyfreithiau, rydyn ni'n awgrymu y dylid cyfeirio'r rhain at weithiwr cyfreithiol proffesiynol, nid y Cyngor.

Mae modd dod o hyd i fanylion am gyfreithwyr cymwysedig yn eich ardal ar wefan The Law Society.

## Byddwch yn effro i erthyglau camarweiniol ar-lein

Mae llawer o erthyglau a thempledi camarweiniol ar y rhyngrwyd ynglŷn â chyfreithlondeb Treth y Cyngor.

Dylai unrhyw un sy'n ystyried defnyddio'r rhain fel amddiffyniad yn erbyn atebolrwydd i dalu Treth y Cyngor yn seiliedig ar gontract, caniatâd a chyfraith gwlad, fod yn ofalus a gofyn am gyngor cyfreithiol priodol.

## Rhagor o wybodaeth

### Cwestiynau Cyffredin

Yn achlysurol iawn, rydyn ni'n cael pobl sydd wedi'u hargyhoeddi bod defnyddio deddf hynafol yn golygu nad oes rhaid iddyn nhw dalu Treth y Cyngor ac mae llawer o erthyglau a thempledi camarweiniol ar y rhyngrwyd ynglŷn â chyfreithlondeb Treth y Cyngor. Dylai unrhyw un sy'n ystyried defnyddio'r rhain fel amddiffyniad yn erbyn atebolrwydd i dalu Treth y Cyngor yn seiliedig ar gontract, caniatâd a chyfraith gwlad, fod yn ofalus a gofyn am gyngor cyfreithiol priodol.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i anfon biliau Treth y Cyngor a'i chasglu, ond nid yw hyn yn golygu bod perthynas ymddiriedol. Mae rhai o'r cwestiynau cyffredin rydyn ni wedi'u derbyn yn cynnwys.

**Darparwch gontract cyfreithiol wedi'i lofnodi gennych chi, sy'n cynnwys llofnodion y ddau ohonon ni.**

Mae rhai preswylwyr yn ystyried bod Treth y Cyngor yn gontract a bod angen contract cyfreithiol a llofnodion yn nodi cytundeb. Fel rydyn ni wedi'i egluro eisoes, mae Treth y Cyngor yn statud, does dim angen contract. Felly, mae unrhyw gyfeiriad at y Ddeddf

Cwmnïau, y Ddeddf Contractau, y Ddeddf Biliau Cyfnewid neu ddeddfau eraill ynghylch cwmnïau neu gontractau yn amherthnasol.

Un amrywiad o'r cwestiwn yma yw 'Darparwch dystiolaeth fy mod wedi cytuno â chi bod modd i chi gasglu dyled honedig gennyf yn gyfreithlon.' Unwaith eto, mae hyn yn amherthnasol, gan na fu cyfnewid contractau ac nid oes cytundeb. Nid oes angen y naill na'r llall ar gyfer codi ac adennill Treth y Cyngor.

**Darparwch dystiolaeth bod rhwymedigaeth gyfreithiol arnaf i dalu Treth y Cyngor**

Mae hierarchaeth o bwy yr ystyrir y person atebol wedi'i chynnwys yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, Pennod 14 Rhan 1, Pennod 1, Adrannau 6 -9. Nid oes angen cytundeb unigol o hyn.

**Darparwch dystiolaeth bod gyda chi'r awdurdod cyfreithiol a chytundebol i ddefnyddio'r enw ffuglennol cyfreithiol 'XXX' at ddibenion gwneud arian.**

Mae p'un a yw enw yn gyfreithiol neu'n ffuglennol yn amherthnasol at ddibenion Treth y Cyngor.

Codir Treth y Cyngor ac mae'n daladwy gan bwy bynnag yw'r parti atebol, a bennir drwy gyfeirio at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992.

**Darparwch gadarnhad bod y ddyled yn bodoli'n gyfreithlon.**

Mae cyflwyno Hysbysiad Galw am Dreth y Cyngor (y bil) yn creu'r ddyled. Nid oes angen llofnod neu gytundeb gan breswylydd ar gyfer Treth y Cyngor. Treth ydyw, nid contract.

**Darparwch ddogfennau sy'n cynnwys llofnod inc gwlyb.**

Fel y nodir uchod, nid oes angen llofnod ar gyfer bilio Treth y Cyngor ac nid yw llofnod inc gwlyb yn orfodol ar wŷs llys ychwaith. Mae cyfraith achosion blaenorol wedi egluro bod y defnydd o stamp rwber neu lofnod electronig yn ddilys at ddiben y llys yn llofnodi gwŷs.

**Rydw i'n Rhyddfreiniwr ar y Tir ac nid wyf yn atebol.**

Nid yw bod yn Rhyddfreiniwr ar y Tir, neu gyfeiriadau cyfatebol, yn golygu bod modd i rywun ddewis pa gyfreithiau y maen nhw'n glynu wrthyn nhw a pha rai y maen nhw'n eu hanwybyddu.

**Anfonwch eich manylion TAW aton ni/darparwch anfoneb TAW.**

Dylid nodi bod Treth y Cyngor yn cael ei hystyried y tu allan i gwmpas TAW ac felly nid oes angen darparu'r manylion yma.

**Nodwch a ydych chi'n gwmni neu'n gorfforaeth.**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn awdurdod lleol yn y Sector Cyhoeddus ac nid oes ganddo rif cwmni.